# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYNHADLEDD GYSWLLT RHEIFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD GWENER, 1AF HYDREF, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD: 23/9/21)

# CYNHADLEDD GYSWLLT RHEIFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

## AELODAETH

## Cyngor Gwynedd


## Cyngor Gwynedd


Cynghorwyr:
Dylan Bullard
E. Selwyn Griffiths
Louise Hughes
Anne Lloyd Jones
Eryl Jones-Williams
Dewi Owen
Gwynfor Owen
Angela Russell
Eirwyn Williams
Owain Williams

## Cyngor Ceredigion
Aros enwebiad

## Cyngor Sir Powys
Cynghorydd J M Williams

**Aelodau Eraill:**

| | |
|---|---|
| Dafydd Elis-Thomas | Aelod Cynulliad Dwyfor/Meirionnydd |
| Liz Saville Roberts | Aelod Seneddol Dwyfor/Meirionnydd |
| Dave Thomas | Llywodraeth Cymru |
| Claire Britton | Rheilffordd Ffestiniog |
| Cynghorydd Trevor Roberts | Pwyllgor Rheilffordd Aberystwyth/Amwythig |
| Lowri Joyce | Trafnidiaeth Cymru |
| David Crunkhorn | Trafnidiaeth Cymru |
| Samuel Hadley | Network Rail |
| Helen Lewis | Ysgol Uwchradd Tywyn |
| Aled Williams | Ysgol Ardudwy |
| Aled Lloyd-Griffith | Coleg Meirion-Dwyfor |
| Joyce Watson | AC Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Helen Mary Jones | AC Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Neil Hamilton | AC Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Stuart Williams | Rheilffordd Talyllyn |
| Roger Goodhew | Cymdeithas Teithwyr Aberystwyth/Amwythig |
| Sgt. Karl Anderson | Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig |
| Cynghorydd Annwen Hughes | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Cynghorydd Delwyn Evans | Grwp Mynediad Meirionnydd |
| Cynghorydd Trefor Jones | Cynrychiolydd Dwyfor Un Llais Cymru |
| Cynghorydd Alun Wyn Evans | Cynrychiolydd Cylch Meirionnydd Un Llais Cymru |
| Claire Williams | Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian |
| Chris Wilson | Cyngor Sir Ceredigion |
| Ann Elias | Cyngor Sir Ceredigion |

# RHAGLEN


## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2021-22

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2021-22

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 6 - 11

Derbyn cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 8.11.2019 fel rhai cywir

## 7. DIWEDDARIAD GAN TRAFNIDIAETH CYMRU

Derbyn adroddiad llafar gan Swyddog Trafnidiaeth Cymru

## 8. DIWEDDARIAD GAN NETWORK RAIL

Derbyn adroddiad ar lafar gan Swyddog Network Rail.

## 9. DIWEDDARIAD AR UWCHRADDIO TRAPHONT ABERMAW

Diweddariad gan Swyddog Network Rail

## 10. YMATEB I GWESTIYNAU FFURFIOL 12 - 13

I dderbyn ymateb i gwestiynau ffurfiol a dderbyniwyd

## 11. ADRODDIAD HEDDLU TRAFNIDIAETH BRYDEINIG

Derbyn adroddiad gan Swyddog o'r Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig

# CYNHADLEDD GYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

**Cofnodion cyfarfod Cynhadledd Gyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian a gynhaliwyd yn y Ganolfan, Porthmadog, ar ddydd Gwener, 8 Tachwedd 2019 o 11.15 a.m. tan 2.00 p.m.**

**Yn bresennol:**

Cyng. Selwyn Griffiths (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Louise Hughes (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Anne Lloyd Jones (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Eirwyn Williams, (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Eryl Jones-Williams (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Owain Williams (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Trevor Roberts (Pwyllgor Rheilffordd Amwythig/Aberystwyth)
Delwyn Evans (Grŵp Mynediad Meirionnydd
Yr Heddwas Andy Greaves (Heddlu Trafnidiaeth Prydain)
Mr Roger Goodhew (Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Amwythig-Aberystwyth)
Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas (Aelod Cynulliad Dwyfor/Meirionnydd)
Sioned Haf Roberts (Swyddfa AC Dwyfor a Meirionnydd)
Michael Williams (Cyngor Powys)
Rhian Williams (Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd)
Mrs Mererid Watt (Cyfieithydd Cyngor Gwynedd)
Sïon Owen (Swyddog Cefnogi Aelodau, Cyngor Gwynedd)

Sam Hadley (Network Rail)
Lowri Joyce (Trafnidiaeth Cymru)

**Ymddiheuriadau:**

Liz Saville Roberts (AS Dwyfor Meirionnydd),
Mrs Claire Williams (Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian),
Cyng. Annwen Hughes, (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Freya Bentham (Cyngor Gwynedd)
Trefor Jones (Cynrychiolydd Dwyfor Unllais Cymru),
Ann Elias (GMW)
Mr Stuart Williams (Rheilffordd Talyllyn)
Chris Wilson

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Gadeirydd ar gyfer 2019-20.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Delwyn Evans yn Is-gadeirydd ar gyfer 2019-20.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. MATERION BRYS**

Nid oedd y Cadeirydd wedi derbyn unrhyw faterion brys.

**3. COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod y gynhadledd a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2018.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion.**

**4. ADRODDIAD GAN NETWORK RAIL**

Croesawyd Sam Hadley, Rheolwr Materion Cyhoeddus Llwybrau Cymru, i'r cyfarfod ac fe adroddodd ar y materion isod:

- Fod Perfformiad ar y rheilffyrdd heb fod yn ddigon da dros yr haf, gyda phroblem ysbeidiol wedi ei chanfod gyda'r system signalau oedd bellach wedi ei datrys.
- Mynegodd bosibilrwydd o gynnal ymweliad i grŵp bychan er mwyn gweld y ganolfan signalau ym Machynlleth, neu drefnu cyflwyniad ar gyfer cyfarfod y Gynhadledd yn y dyfodol.
- 'Roedd tywydd garw hefyd wedi bod yn broblem, gyda phroblemau mewn ardaloedd eraill wedi cael effaith ar wasanaethau Rheilffordd Arfordir y Cambrian. Cydnabu rwystredigaeth defnyddwyr y rheilffordd, gan nodi fod Network Rail yn monitro mannau problemus yn ofalus, gan weithio ar ddatrysiadau hirdymor.
- 'Fod trefniadau monitro perfformiad bellach yn monitro yn fwy manwl gan ganolbwyntio ar amseroedd cyrraedd gorsafoedd unigol yn hytrach na dechrau a gorffen taith.
- 'Roed y newid yma wedi arwain at wneud newidiadau bychain yn lleol er mwyn gwella effeithlonrwydd.
- Fod model busnes newydd wedi ei ddatblygu, gan ennill mwy o hyblygrwydd er mwyn targedu gwariant yn y mannau oedd ei angen.
- Fod gwelliannau a wnaethpwyd yn dilyn Hydref 2018 wedi dwyn ffrwyth, gan arwain at lai o ddifrod i olwynion a chadw mwy o gerbydau yn weithredol. Golyga hynny yn ei dro na fyddai cerbydau yn cael eu tynnu oddi ar Reilffordd y Cambrian a'u dargyfeirio i liniaru prinder mewn ardaloedd eraill.
- Fod Adolygiad Williams yn debygol o adrodd wedi'r etholiad, gyda rhagdybiaeth o newidiadau sylweddol i'r rheilffyrdd.
- **Wal y Friog -** Fod swyddog o Network Rail wedi bod i gyfarfod y gymuned, bod cynlluniau wedi eu datblygu ar y cyd gyda'r Cyngor i wneud y gwaith. Nad oedd dyddiad wedi ei osod eto.
- **Croesfan Talwrn Bach -** 'Roedd gwaith wedi ei gynllunio ar gyfer blwyddyn 3 o'r cyfnod ariannu presennol, sef 2021-22. 'Roedd hefyd angen cynnal cydweithio gyda thirfeddianwyr lleol.
- **Pont Afon Artro -** Dangoswyd lluniau o'r gwaith, oedd wedi achosi cau'r lein dros dro. Nododd fod nifer uchel o bontydd pren ar Reilffordd Arfordir y Cambrian, a bod Network Rail yn defnyddio'r gwaith cynnal a chadw er mwyn datblygu technegau i'w defnyddio ar Bont Abermaw.
- Ymddiheuro bod gwybodaeth wedi ei yrru yn uniaith Saesneg i fudd-ddeiliaid yn ddiweddar, a bu iddo ymddiheuro gan fynegi syndod ei fod wedi digwydd mewn ardal mor Gymreig.

Cwestiynau a sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- O ran Pont Artro, oni fyddai wedi bod yn fuddiol i wneud gwaith ar bontydd Tŷ Gwyn a Llandanwg ar yr un pryd?

Mewn ymateb nododd Sam Hadley fod hynny'n awgrym synhwyrol, a'i fod yn tybio bod rheswm synhwyrol dros wneud y gwaith ar y bont yma'n unig. 'Roedd Network Rail wedi gweld wrth wneud gwaith ar lein Dyffryn Conwy ei fod yn gost effeithiol gwneud nifer o ddarnau o waith cynnal a chadw ar yr un pryd ar ran o'r lein.

- Sut wasanaeth fyddai'n cael ei gynnal ar ddydd Sul i'r dyfodol?
- Fyddai teithio am ddim gyda thrwydded yn parhau?
- Fyddai Rheilffordd y Cambrian yn parhau i golli eu cerbydau i rannau eraill o Gymru?

Mewn ymateb nododd Sam Hadley byddai gwasanaeth trên y Sul yn newid o 3 i 5 trên y dydd, gyda chynnydd pellach yn y dyfodol. Byddai teithio gyda thrwydded yn parhau yn dymhorol yn unig oherwydd diffyg capasiti ar y trenau i'w gynnal trwy'r flwyddyn. Ychwanegodd y byddai'r achlysuron ble byddai cerbydau yn cael eu colli i rannau eraill yn lleihau wrth i gerbydau gael eu huwchraddio mewn ardaloedd eraill, a bod cerbydau sy'n gweddu'n dda i Reilffordd y Cambrian yn aros arni.

Diolchwyd am yr adroddiad

## 5. ADRODDIAD GAN DRAFNIDIAETH CYMRU

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Lowri Joyce, Trafnidiaeth Cymru, i gyflwyno ei hun ac adrodd ar weithgareddau Trafnidiaeth Cymru hyd yma ac fe adroddodd ar y materion isod:

- Ei bod wedi ei phenio i Drafnidiaeth Cymru yn Ebrill 2019, wedi blynyddoedd o weithio yn y diwydiant Niwclear.
- Fod llwybr wedi ei ailagor er mwyn galluogi trenau i deithio o Wrecsam i Lerpwl yn uniongyrchol.
- Fod Trafnidiaeth Cymru yn edrych ar gynyddu capasiti, gan gynnwys dychwelyd trenau yn cael eu tynnu gan injan.
- Fod cynllun 'delay repay' wedi dechrau oedd yn ad-dalu tocynnau os oedd trên 15 munud neu fwy yn hwyr.
- Fod bwriad i weithio'n agos gyda chymunedau er mwyn gwella cydweithio cymunedol ac annog trigolion i helpu.
- Fod perfformiad bellach yn cael ei fesur yn wahanol, ac yn fwy manwl.
- Fod 120 o swyddi newydd bellach, gyda chynrychiolaeth gref o'r Gogledd fyddai'n eirioli er mwyn gwella'r ddarpariaeth.
- Eu bod wedi dysgu o brofiad defnyddwyr gyda'r newid yn y tocynnau teithio am ddim. Ni fyddai unrhyw deithiwr yn cael eu troi ymaith wedi i'r tocynnau newydd ddod yn weithredol felly nid oed angen i ddeiliaid trwyddedau bryderu.

- Fod gwaith da wedi ei wneud mewn partneriaeth gyda'r Cyngor wrth fynd i lyfrgelloedd er mwyn cynorthwyo trigolion gyda cheisiadau am docyn newydd.
- 'Roedd cynllun gwerth £195 miliwn wedi ei lansio er mwyn rhoi gwell profiad i gwsmeriaid, gan gynnwys gosod CCTV, cysylltedd diwifr, cysgodfan a man cadw beic ym mhob gorsaf.
- Byddai'r cynllun yn dechrau yng ngorsafoedd Machynlleth a Chyffordd Dyfi ar Reilffordd y Cambrian, gyda gorsaf Machynlleth hefyd yn dod yn orsaf beilot fel gorsaf dementia cyfeillgar.
- Fod bwriad i edrych ar adeiladau segur er mwyn annog eu defnyddio.

Cwestiynau a sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Pan fo bysus yn cymryd lle trenau, fod bws rhy fach wedi cael ei ddarparu, gan olygu fod teithwyr yn cael eu gadael ar ôl, yn enwedig rhai gyda beiciau a chadeiriau olwyn.
- Fod darparu digon o le ar gyfer beiciau yn bwysig gan fod galw amlwg am y ddarpariaeth ar drenau Rheilffordd Arfordir y Cambrian. Y gobaith oedd y byddai'r lle angenrheidiol wedi ei ddarparu ar y cerbydau newydd fyddai'n cael eu darparu.

Mewn ymateb nododd Lowri Joyce fod Trafnidiaeth Cymru yn ymwybodol o broblemau gyda'r bysus, a byddai ymdrech yn cael ei wneud er mwyn lleddfu'r problemau i'r dyfodol.

- Nodwyd bod dim digon o amser er mwyn trosglwyddo o'r trên i fws er mwyn parhau a thaith ar brydiau, yn ogystal â thyllau yn y ddarpariaeth mewn mannau eraill.

Mewn ymateb nododd Lowri Joyce fod ymdrech yn cael ei wneud er mwyn integreiddio'r gwasanaethau cludiant yn well, a bod croeso i fudd-ddeiliaid i gysylltu â hi gyda phroblemau.

- Tra bod glanhau gorsafoedd yn cael ei groesawu, pam fod cwmni tramor wedi ei gytundebu i wneud y gwaith?

Mewn ymateb nodwyd mai cwmni Cymreig oedd wedi ennill y cytundeb, ond nad oedd gwybodaeth am unrhyw is-gontractau na threfniadau staffio i law.

Diolchwyd am yr adroddiad.

## 5. ADRODDIAD HEDDLU TRAFNIDIAETH BRYDEINIG

Estynnodd y Cadeirydd groeso i PC Andy Greaves o'r Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig.

Nododd fod Rheilffordd y Cambrian yn un o'r llwybrau mwyaf diogel ar system Trafnidiaeth Cymru. Yr unig adegau ble'r oedd problemau yn codi oedd pan fyddai trenau yn cael eu gohirio yn ddirybudd, ond 'roedd yn ymwybodol bod ymdrechion ar waith er mwyn datrys problemau.

## 6. CWESTIYNAU FFURFIOL

Roedd cwestiynau ysgrifenedig ffurfiol wedi eu cyflwyno gan amryw o Gynghorau Cymuned a chafwyd yr atebion isod:

| | |
|---|---|
| **1** | **Cyngor Tref Porthmadog - i Trafnidiaeth Cymru** |
| **1.1** | **Pa ddatblygiadau sydd ar y gweill ar y trenau i sicrhau gwasanaeth dwyieithog?** |
| | Nodwyd bod ymdrechion yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod staff yn medru ynganu enwau lleoedd Cymraeg yn gywir, gan gynnwys cynnig gwersi Cymraeg. |
| **1.2** | **Pam fod yna gymaint o drenau yn cael eu gohirio mor aml ac yn rhedeg yn hwyr?** |
| | Trafodwyd y mater yma eisoes yn y cyfarfod. |
| **1.3** | **Pa bryd maent am roi darpariaeth ychwanegol ar y trenau i fedru cario mwy o feiciau?** |
| | Trafodwyd y mater yma a derbyniwyd ymateb yn gynharach yn y cyfarfod |
| **1.4** | **Beth yw eu trefniadau nhw ynglŷn â chasglu sbwriel ar hyd y lein gan nodi problemau ger Cambrian Terrace ym Mhorthmadog.? (Nodwyd y gallai'r sbwriel fynd i mewn i'r Cyt a chreu problemau amgylcheddol).** |
| | Nodwyd fod sbwriel yn cronni yn broblem, ac 'roedd angen sicrhau cydweithio holistig rhyngasiantaethol er mwyn datrys y broblem. 'Roedd angen hefyd atal i deithwyr ollwng sbwriel, yn ogystal â stopio tipio slei bach. Byddai ymdrechion yn cael eu gwneud yn y dyfodol er mwyn lleihau'r gwastraff fyddai'n cael ei gynhyrchu gan deithwyr, a byddai cynllun o fabwysiadu gorsafoedd yn cael ei gynnig maes o law. |
| **1.5** | **Oes yna gynlluniau i gynnig gwasanaeth cyflym rhwng Pwllheli ac Amwythig yn y bore a gyda'r nos fel bod modd gwneud y siwrne mewn dwy awr yn lle tair?** |
| | Nodwyd fod y syniad yma wedi ei gynnig yn y gorffennol, ond wedi wynebu gwrthwynebiad gan ddefnyddwyr gorsafoedd bach y lein. |
| **1.6** | **Ydi'n bosib cael darpariaeth bwyd a diod o Bwllheli i Fachynlleth?** |
| | Nodwyd fod ymdrechion ar wait hi sicrhau darpariaeth yn y gorsafoedd mwy, a byddai gwelliannau pellach yn cael eu cynnig yn y flwyddyn newydd. |
| **1.7** | **Pam nad ydi pobl sydd efo cardiau teithio am ddim yn cael eu defnyddio ar Reilffordd Cambrian trwy'r flwyddyn fel mae defnyddwyr y trên rhwng Blaenau Ffestiniog a Llandudno ?** |
| | Nodwyd nad oedd yn bosib cynnig yr un hawl gan fod y trenau ar Reilffordd y Cambrian yn rhy llawn yn yr haf. |
| **2** | **Cyngor Tref Criccieth - i Trafnidiaeth Cymru** |
| **2.1** | **A fedrwn gael diweddariad os gwelwch yn dda am gynlluniau'r gweithredwr trenau ar gyfer stesion Criccieth** |
| | Nodwyd y byddai'r orsaf yn derbyn yr un sylw a'r gorsafoedd eraill yn unol â chynlluniau uwchraddio Trafnidiaeth Cymru. |

| | |
|---|---|
| **2.2** | **(i Network Rail) Mae consyrn ynglŷn â chyflwr rhai o'r llwybrau cerdded o gwmpas stesion Criccieth: Yr angen i wella cynnal a chadw'r llwybrau canlynol: y llwybr cul o'r maes parcio i'r stesion a hefyd yr ugain llath gyntaf o lwybr rhif 1 tuag at gyfeiriad Ysgol Treferthyr.** |
| | Nodwyd nad oedd sicrwydd ynglŷn a pherchnogaeth tir ym maes parcio gorsaf Criccieth, ond bod Network Rail wedi gwneud gwaith yno yn y gorffennol. Byddai Network Rail yn edrych ar y llwybrau ac yn asesu pa waith oedd angen ei wneud. |
| **3** | **Cynghorydd Owain Williams – i Trafnidiaeth Cymru** |
| **3.1** | **Tra mae'r gwelliannau yn y gwasanaeth cyfathrebu drwy'r Gymraeg i'w groesawu - a oes modd cael gwell ynganu o enwau llefydd a gorsafoedd yn ein hiaith? Buasai defnyddio siaradwyr sy'n rhugl yn gychwyniad - wedi'r cyfan pe bai'r un gwallau yn y Saesneg...be fuasai'r ateb?** |
| | Nodwyd fod ymdrechion yn cael eu gwneud yn y maes er mwyn sicrhau ynganiad cywir i enwau lleoedd. 'Roedd gwaith ymchwil wedi ei wneud hefyd er mwyn defnyddio technoleg debyg i 'alexa' er mwyn creu system hyblyg oedd wedi ei recordio yn barod. |
| **4** | **Roger Goodhew, Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Amwythig i Aberystwyth – i Trafnidiaeth Cymru** |
| | **A oes unrhyw gymhelliant i'r gweithredwyr trenau ddatblygu gwasanaeth trên uniongyrchol i'r canolfannau llywodraeth yng Nghaerdydd a Llundain?** |
| | Nodwyd nad oedd cymhelliant ar hyn o bryd. Fodd bynnag 'roedd Trafnidiaeth Cymru yn agored i gynnig datblygiadau yn seiliedig ar alw. Ychwanegwyd fod peth galw wedi ei gofnodi ar gyfer gwell cysylltiadau a Manceinion. 'roedd y gwasanaeth wedi gwella yn y blynyddoedd diweddar, a byddai'n parhau i wella a datblygu. Fodd bynnag, byddai'n rhaid adeiladu'n raddol ac 'roedd yn debygol byddai Trafnidiaeth Cymru yn gweithio ar gysylltu Caerdydd yn well i weddill Cymru. |

**Penderfynwyd: Diolch am y cwestiynau ac am yr atebion ffafriol a gafwyd gan y swyddogion.**

**CADEIRYDD**

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN 01-10-2021**
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE 01-10-2021**

| Cwestiwn i TRAFNIDIAETH CYMRU / Question for TRANSPORT FOR WALES | |
|---|---|
| **Cwestiwn i NETWORK RAIL/ Question for NETWORK RAIL**<br><br>**FAO – Mr Sam Hadley / NWR Team**<br><br>Llangelynnin Community Council would like to know when the long-awaited work on the boundary wall and crash barriers on the **A493 between Llwyngwril and Friog** will be started ….<br>and completed.<br>This complaint was first reported to Cyngor Gwynedd in **January 2015,** who then transferred it to NWR in May 2015 as NWR was responsible for the boundary wall and crash barrier.<br>The complaint was first brought to the Cambrian Coast Railway Liaison Conference's attention on **03.03.17** and has been discussed by your liaison committee several times since …..<br>10.11.17, 9.3.18 & 30.11.18 - **and we are still waiting for the work to be done !!!**<br><br>**Would be grateful if this could be discussed at your next meeting and hopefully, we will not have to remind NWR and your committee again about the seriously dangerous safety issues here.**<br><br>Would appreciate if your comments/minutes could be relayed to Llangelynnin Community Council when they are available.<br>Many thanks.<br>Llawer o ddiolch.<br><br>Glenda Edwards<br>On behalf Llangelynnin Community Council | |
| **Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for COMMITTEE** | |
| **Cwestiwn i'r BARTNERIAETH / Question for PARTNERSHIP** | |
| **Oddiwrth / From:**<br><br>**Llangelynnin Community Council**<br><br>Elfan<br>Llwyngwril<br>Gwynedd<br>LL37 2JJ<br><br>clerc@cyngor-llangelynnin-counci.org.uk | |
| **I'w dychwelyd at / To be returned to:** | Lowri Haf Evans<br>Gwasanaethau Democratiaeth / Democratic Services<br>Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council<br>Stryd y Jel, Caernarfon, Gwynedd<br>01286 679 878<br>lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru |
| **Erbyn / By:** | **06-09-2021** |

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN 01-10-2021**
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE 01-10-2021**

**Cwestiwn i TRAFNIDIAETH CYMRU / Question for TRANSPORT FOR WALES**

**Dim ond I ddatgan siomedigaeth bod Gorsaf Talwrn Bach wedi bod ar gau cyhud oherwydd cyfyngiadau cofid 19.**
**Pe bae argyfwng tebyg yn bod eto yn y dyfodol agos be fydd tynged yr Orsaf yma?**
**A oes modd ymestun y platform I'r gogledd, er mwyn sicrhau bod digon o blatform yma?**

**Just to express disappointment that Talwrn Bach Station has been closed for public due to the constraints of covid 19.**
**Should a similar crisis occur again in the near future what will be the fate of this Station?**
**Can the platform extended to the North, to ensure that there is enough platform here?**

**Cwestiwn i NETWORK RAIL/ Question for NETWORK RAIL**

**A oes modd uwchraddio yr Orsaf yma yn Talwrn bach – ei gwneud yn un stop, yn lle gofyn am I'r tren stopio yma?**

**Hefyd a oes posib gwneud gwelliannau I'r arosfan yma.?**
**Mae nifer o bobl yn ymweld gyda Llanbedr yn ystod yr haf, ac yn defnyddio y gwasanaeth, a bydda cael man aros gwell yma yn gymorth.**

**A oes unrhyw ddatblygiadau parthed gosod barriers ar draws y ffordd crossing Talwrn Bach. Hyn wedi ei addo ers blwyddyn neu ddwy bellach.**

**Can the Station at Talwrn bach be upgraded - make it a one stop, instead of asking for the train to stop here?**

**Also is it possible to make improvements at this stop?**
**Many people visit Llanbedr during the summer, and use the service, and having a better waiting area here would help.**

**Are there any developments regarding the installation of barriers across the road crossing Talwrn Bach. This has been promised for a year or two now.**

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for COMMITTEE**

**Cwestiwn i'r BARTNERIAETH / Question for PARTNERSHIP**

**Oddiwrth / From:**

**Morfudd Lloyd Clerc Llanbedr**
**Diolch am unrhyw ymateb.**

| | |
|---|---|
| **I'w dychwelyd at / To be returned to:** | Lowri Haf Evans<br>Gwasanaethau Democratiaeth / Democratic Services<br>Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council<br>01286 679 878<br>lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru |
| **Erbyn / By:** | **06-09-2021** |